

**Adroddiad Adolygiad Arfer Plant
Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant
Caerdydd a Bro Morgannwg
Adolygiad Arfer Plant Estynedig**

Parthed: AAP 03/2016

Amlinelliad cryno o amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

Cyd-destun cyfreithiol o ganllaw mewn perthynas â pha adolygiad a gynhelir

Comisiynwyd Adolygiad Arfer Plant Estynedig gan Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg (BRhDPCBM) ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiad Arfer Plant ac Oedolion yn unol â Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru 2014, canllaw Adolygiadau Arfer Plant cyfrol 2. Cafodd y meini prawf ar gyfer yr Adolygiad hwn eu diwallu dan adran 3.12 y canllaw uchod sef:

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad arfer plant estynedig mewn unrhyw un o'r achosion canlynol, o fewn ardal y Bwrdd, os gwyddir neu honnir bod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso a bod y plentyn wedi

- marw; neu
- wedi cael anaf a allai roi ei fywyd mewn perygl; neu
- wedi cael nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad;

a,

roedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu yn derbyn gofal (gan gynnwys y rheiny dan 18 sydd wedi gadael gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis blaenorol

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod gan blentyn anaf difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

Mae'r cylch gorchwyl i'r adolygiad hwn yn Atodiad 1.

Gwybodaeth gefndir

Mae'r plentyn yn yr Adolygiad Arfer Plant Estynedig hwn nawr yn destun Gorchymyn Gofal i'r Awdurdod Lleol. Mae amserlen yr adolygiad hwn yn ymwneud â digwyddiadau rhwng 1 Ionawr 2014 a 10 Ionawr 2016 pan gafodd y Gorchymyn Gofal ei roi.

Ganwyd y plentyn yn 2009 yn unig blentyn i fam sengl oedd yn byw gyda'i rhieni ei hun ar adeg genedigaeth y plentyn. Roedd gan y fam broblemau camddefnyddio sylweddau yn ystod ei bechiogrwydd a 6 blynedd cyntaf bywyd y plentyn. Cafodd y plentyn ei amlygu i'r camddefnydd hwn, ei gweithgareddau troseddol a chamdriniaeth domestig. Nid oedd gan y plentyn gartref sefydlog, ac ni chafodd ei anghenion iechyd, datblygiad nac addysg eu diwallu. Roedd gan gariad y fam hanes o gollfarnau am achosion o drais a chamddefnyddio sylweddau a honnir ei fod wedi cam-drin y plentyn yn rhywiol. Roedd gwasanaethau yn ymwneud â'r teulu o adeg genedigaeth y plentyn ac roedd enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant o fis Mehefin 2014 i fis Medi 2015. Roedd y fam yn gwrthod yn gyson i ddweud wrth y gweithwyr proffesiynol pwy oedd y tad ac ni phennwyd hunaniaeth y tad yn ystod yr achosion gofal. Nid oedd y plentyn yn gwybod unrhyw beth am y tad yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn.

Mae'r plentyn bellach mewn gofal maeth ac yn ymateb yn dda i amgylchedd gwell gyda theulu cefnogol fodd bynnag fe wnaethpwyd y penderfyniad i barhau ag adolygiad arfer plant estynedig ar sail effaith y camdriniaeth rhywiol y mae'r plentyn wedi'i ddioddef ac oherwydd canlyniadau tebygol yr esgeulustod a'r camdriniaeth emosiynol hir dymor.

Yn Ionawr 2016, tua phum mis ar ôl i'r plentyn gael ei dynnu o ofal y fam, bu farw'r tad-cu mewn tân yn y cartref. Cyhuddwyd y fam o lofruddio ond lleihawyd hyn i ddynladdiad ac fe'i canfuwyd yn ddiuog yn y pen

draw drwy fodd gwallgofrwydd. Er gwaetha'r ffaith bod cyflwr meddyliol y fam yn ffactor tystiolaethol allweddol yn yr achos llys o ran marwolaeth y tad-cu, gydol cyfnod yr adolygiad hwn nid oes unrhyw gyfeiriad at y ffaith fod gan y fam salwch meddwl neu ei bod wedi cael salwch meddwl yn y gorffennol. Mae Adolygiad Dynladdiad Domestig i farwolaeth y tad-cu wedi'i gynnal ar y cyd â'r adolygiad hwn.

Digwyddiadau Allweddol Cyn y Cyfnod dan Adolygiad

Cafwyd 3 atgyfeiriad amddiffyn plant cyn cyfnod yr adolygiad hwn. Roedd y cyntaf o uned newydd-anedig, lle rhoddwyd y plentyn yn dilyn ei enedigaeth er mwyn gallu ei arsylwi oherwydd camddefnyddio sylweddau'r fam yn ystod y beichiogrwydd a'i chynnwrf a'i bygythiadau i adael yr uned gyda'r babi, ac hefyd oherwydd ymddygiad ymosodol y tad-cu ar y ward.

Digwyddodd yr ail atgyfeiriad ym Medi 2010 gan yr Uned Dibyniaethau Cymunedol (UDC) oherwydd pryderon ynghylch achosion o gamdriniaeth domestig yn cynnwys y fam-gu a'r tad-cu a oedd yn digwydd ym mhresenoldeb y fam a'r plentyn. Cydnabuwyd hefyd bod ymgysylltiad y fam gyda'r UDC a gwasanaethau eraill yn wael. O fewn yr atgyfeiriad gan UDC nodwyd bod ymweliadau cartref yn cael eu gwrthod yn rheolaidd gan y fam a bod yr Ymwelydd Iechyd yn nodi nad oedd hi'n cael mynediad i'r eiddo i weld y plentyn.

Roedd y trydydd atgyfeiriad gan gymydog yn Awst 2012 oherwydd pryderon ynghylch cyflwr gwael y cartref, camddefnyddio sylweddau a phobl yn galw heibio'r cyfeiriad yn rheolaidd. Dywedwyd bod y plentyn yn cael ei adael ar ei ben hun yn yr ardd ffrynt yn aml gyda dim ond bagiau o greision i'w bwyta.

Cynhaliwyd asesiadau cychwynnol mewn ymateb i'r ddau atgyfeiriad cyntaf a chynhaliwyd asesiad craidd ar y trydydd achlysur. Roedd esboniad y fam fel a ganlyn: yn yr achos cyntaf roedd y fam o'r farn bod staff y ward yn gwahaniaethu yn ei herbyn oherwydd ei phroblemau dibyniaeth, roedd y pryderon yn yr ail atgyfeiriad wedi'u gorliwio ac roedd y trydydd atgyfeiriad yn faleisus.

Cafodd y tri atgyfeiriad eu hymchwilio gan y Gwasanaethau Plant ond ni nodwyd unrhyw bryderon pellach ac ni aethpwyd â'r broses amddiffyn plant ymhellach.

Yn 2013 cafwyd atgyfeiriad gan y Gwasanaethau Oedolion a oedd yn honni bod y fam a'r tad-cu yn cam-drin y fam-gu yn ariannol. Ni chymerwyd unrhyw gamau diogelu pellach gan nad oedd y fam-gu eisiau parhau â'r mater. Roedd y fam yn parhau i fod yn hysbys i'r UDC, a nodwyd digartrefedd fel mater o bryder oherwydd bod y fam, y tad-cu a'r plentyn wedi gadael eiddo'r fam-gu. Roedd y tad-cu yn byw gyda'r fam a'r plentyn gydol cyfnod yr adolygiad er nodwyd gan weithwyr proffesiynol ei fod wedi gwrthod cymryd rhan mewn unrhyw asesiad neu drafodaeth yn ymwneud â'i wŷr/wyres.

Digwyddiadau Allweddol yn Ystod y Cyfnod dan Adolygiad

Cafodd yr Asesiad Cychwynnol, a gwblhawyd ar ddechrau'r cyfnod dan adolygiad, ei ddechrau o ganlyniad i ddau hysbysiad DAH1 a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol gan yr heddlu yn Rhagfyr 2013; roedd y fam wedi siop-ladrata tra roedd y plentyn yn ei gofal. Cafodd yr asesiad ei rwystro oherwydd diffyg cydweithrediad y fam a'r ffaith ei bod wedi gwrthod rhoi caniatâd i'r gweithiwr cymdeithasol i gysylltu ag asiantaethau eraill i geisio gwybodaeth am y plentyn a'r teulu.

Roedd ymholiadau a wnaed gan y gwasanaethau cymdeithasol gydag ysgol y plentyn yn Rhagfyr 2013 wedi nodi pryderon ynghylch presenoldeb, prydlondeb, ymddangosiad a iechyd deintyddol gwael y plentyn. Roedd presenoldeb gwael y plentyn yn cael ei adlewyrchu yn y cynnydd datblygiadol ac addysgol gwael. Roedd dannedd llaeth y plentyn wedi pydru ac o ganlyniad roedd angen i 10 ohonynt gael eu tynnu. Roedd gan y plentyn droad yn y llygad ond dim ond bob hyn a hyn roedd e'n gwisgo sbectol. Roedd y plentyn wedi methu profion clywed a gweld gan y nyrs ysgol a chafodd ei asesu fel plentyn a oedd yn meddu ar anhawster ysgafn / cymedrol o ran deall iaith lafar. Ni wnaeth y fam gydnabod y pryderon a godwyd gan weithwyr proffesiynol ar yr adeg honno a pharhaodd ei hymgysylltiad â'r tîm i fod yn wael heb unrhyw newid. Roedd hi'n dangos ymddygiad gwrthdrawiadol ac ataliol yn gyson.

Canlyniad yr Asesiad Cychwynnol oedd argymhelliad i barhau ag ymholiadau A.47 oherwydd pryderon bod y fam yn camddefnyddio sylweddau, esgeulustod o ran anghenion gofal sylfaenol y plentyn ac ansefydlogrwydd o ran cartref y plentyn. Fe wnaeth yr Asesiad Craidd gymryd 12 wythnos i'w gwblhau, yn ôl Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (GAPCG) dylid ei gwblhau mewn llai na 35 diwrnod gwaith) a rhwng yr atgyfeiriad a arweiniodd at yr Asesiad Cychwynnol a'r Gynhadledd Amddiffyn Plant Cychwynnol dilynol, aeth bron i 6 mis heibio. Nid oedd y gweithwyr cymdeithasol a oedd yn gysylltiedig ar y pryd ar gael i fynychu'r digwyddiad dysgu, ac nid oedd yr ymarferwyr a fynychodd yn gallu esbonio'r oedi hwn gan nad oedd y rheswm wedi'i gofnodi'n ffurfiol yn nodiadau'r achos.

Ym Mawrth 2014 cafodd yr heddlu eu galw i achos o anghydfod rhwng y landlord a'r tenant. Roedd y fam wedi derbyn hysbysiad gadael gan ei landlord preifat ar gyfer y fflat dwy ystafell wely yr oedd yn ei rannu gyda'r tad-cu a'r plentyn. Wrth fynd i'r eiddo, gofynnodd yr heddlu sawl gwaith i'r fam, a'r tad-cu a oedd yn bresennol ar y pryd, i fynd â'r plentyn o'r ystafell oherwydd pryderon bod y plentyn, a oedd yn gweld pawb yn gweiddi, wedi'i gyffroi gan y digwyddiadau ac yn crio, ond fe wrthododd y fam i dynnu'r plentyn o'r sefyllfa. Cafodd Dogfen Amddiffyn Heddlu neu DAH1 (a elwir bellach yn Hysbysiad Amddiffyn y Cyhoedd neu HAC) ei chyflwyno ar y pryd oherwydd pryderon ynghylch trallod y plentyn a barn swyddog yr heddlu nad oedd y fam yn gweithredu gyda lles y plentyn mewn golwg.

Ym Mai 2014 cafodd yr asesiad A.47 ei gwblhau gan nodi pryderon sylweddol o ran niwed emosiynol, esgeulustod, y fam yn camddefnyddio sylweddau a'i gweithgareddau troseddol. Ym Mehefin 2014 cafodd y plentyn ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant dan y categorïau esgeulustod a chamdriniaeth emosiynol. Roedd presenoldeb ysgol mewn grwpiau craidd dilynol yn anghyson. Yn ystod y cyfnod hwn nid oedd y fam yn ymwneud rhyw lawer â'r UDC ac roedd hi'n colli profion cyffuriau yn aml. Roedd hi'n aml yn methu â mynychu apwyntiadau ar gyfer ei anghenion iechyd ei hun ac anghenion ei phlentyn, ac ymddengys nad oedd hi'n gallu derbyn yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar iechyd a lles ei phlentyn.

Ar ddechrau Hydref 2014 cysylltodd y fam-gu â'r heddlu a mynegodd bryderon am ei wŷr/wyres a oedd gartref gyda'r fam a'i chariad a oedd yn ôl y sôn wedi achosi difrod i ddrws. Aeth yr heddlu draw gan nodi nad oedd ganddynt unrhyw bryderon am y plentyn ac nad oedd unrhyw ddifrod i'r eiddo. Roedd y cariad yn bresennol a chyflwynodd yr heddlu DAH1 (HAC bellach) yn cynnwys ei fanylion a rannwyd gyda'i asiantaethau partner. Dau ddiwrnod yn ddiweddarach cysylltodd y fam â'r heddlu i wneud cais datgeliad Cyfraith Claire. Roedd gan y cariad hanes o gamdriniaeth domestig. Gwnaed sawl ymgais i gysylltu â'r fam i roi gwybod iddi am y ffaith yma. Ni chysylltodd tan y mis canlynol, erbyn hynny roedd y fam wedi rhoi gwybod i'r heddlu ei bod wedi newid ei meddwl ac nad oedd hi eisïau'r datgeliad. Ni roddodd unrhyw resymau o ran pam ei bod wedi gwneud y penderfyniad hwn. Nodwyd yn ystod yr adolygiad na chyflwynwyd DAH1 yn gysylltiedig â'r cais Cyfraith Claire hwn a hanes y cariad o gamdriniaeth domestig.

Yn Ionawr 2015 mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant - Adolygiad roedd sôn am berthynas fer gyda dyn, a rhoddodd y fam wybod i'r gynhadledd ei bod wedi dod â'r berthynas i ben ar ôl cael gwybod am hanes ei chariad, a oedd wedi cynnwys cyhuddiadau o gurfa, trais domestig a meddiant o gyffuriau. Nodwyd y camau canlynol yn y gynhadledd; ni ddylai'r plentyn gael ei gyflwyno i ffrindiau a phartneriaid newydd y fam nes bod y perthnasau wedi'u sefydlu a bod gwiriadau priodol wedi'u cwblhau. Holodd y panel adolygu pa mor briodol oedd yr argymhelliad o ystyried ei fod yn gais afrealistig ac nad oedd modd ei orfodi.

Ym Mawrth 2015 cysylltodd y fam â Heddlu De Cymru i wneud cais Cyfraith Claire am gariad newydd o bum mis. Nododd ei bod eisïau gwybod am ei hanes oherwydd ei phlentyn pump oed. Roedd gan y cariad 16 marc rhybudd gwahanol a oes yn cynnwys hunan-niwed, trais, problemau iechyd meddwl, camdriniaeth domestig, testun gorchmynion ataliol, a meddiant o arfau (gyda llafn). Cafodd digwyddiad ei greu a'i anfon mewn camgymeriad i fewnflwch heddlu nad oedd yn cael ei fonitro mwyach. Pan ganfuwyd y camgymeriad hwn cysylltodd yr heddlu â'r fam, ond gwrthododd y wybodaeth a gynigiwyd yn gysylltiedig â'r cariad. Ni aethpwyd â'r cais Cyfraith Claire ymhellach a thra bo gwybodaeth ar systemau gwybodaeth yr heddlu yn gysylltiedig â'r gymdeithas, ni chafodd DAP1 (HAC bellach) ei chreu ac ni rannwyd y wybodaeth â phartneriaid aml-asiantaeth.

Yn Ebrill 2015 ar ymweliad AP statudol sylwodd y gweithiwr cymdeithasol bod y fam yn gwisgo wig i guddio'r ffaith bod darnau o'i gwallt yn eisiau, roedd ganddi hefyd sgaldiad ar ei chlun a llosgiad ar ei braich. Rhoddodd y fam esboniadau anghredadwy i'r anafiadau hyn ac yna datgelodd y plentyn ei fod wedi gweld y cariad yn brifo'r fam. Felly ymddengys yn debygol bod yr anafiadau a welwyd yn Ebrill 2015 wedi cael eu hachosi gan y cariad. Ym Mawrth 2016 lanswyd y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar Drais yn erbyn merched, camdriniaeth domestig a thrais rhywiol. Yn y fframwaith hwn mae hyfforddiant grŵp 2 yn disgrifio grŵp o weithwyr proffesiynol a fydd yn "Gofyn a Gweithredu". Mae Gofyn a Gweithredu yn cael ei ddiffinio fel proses o ymholiadau targedig ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â thrais yn erbyn merched, camdriniaeth domestig a thrais rhywiol. O ganlyniad i'r hyfforddiant hwn bydd gan gyfranogwyr y sgiliau, y gallu a'r hyder i "ofyn a gweithredu", gan nodi a chynnig cymorth mewn modd rhagweithiol i ddioddefwyr trais yn erbyn merched, camdriniaeth domestig a thrais rhywiol. Hefyd yn ystod Ebrill 2015 aethpwyd â'r fam i'r llys am drosedd siopladrad a chafodd orchymyn cymunedol 12 mis. Cafodd gweithiwr Canolfan Adnoddau Cymunedol ei haseinio iddi a threfnwyd apwyntiad ar gyfer 15 Ebrill 2015 ond ni fynychodd, gan ddweud bod rhaid iddi ofalu am ei rhieni oedrannus.

Mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant - Adolygiad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2015 dywedodd y fam ei bod wedi dod â'r berthynas i ben ychydig ddiwrnodau cyn hynny, gan ychwanegu nad oedd y cariad erioed wedi ei tharo. Fodd bynnag roedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi cofnodi ym mis Gorffennaf 2015 fod y plentyn wedi gweld dadl rhwng y fam a'r cariad a dywedodd y plentyn ei fod yn ofni y byddai'n brifo'r fam. Mae'r ffaith bod asiantaethau yn gwybod am berthynas y fam gyda'r dyn hwn ac na chymerwyd unrhyw gamau i bennu ei rôl ym mywyd y plentyn yn peri pryder.

Y diwrnod ar ôl y gynhadledd cafodd y gweithiwr cymdeithasol alwad ffôn gan y fam-gu yn rhoi gwybod iddi fod y plentyn wedi datgelu bod cariad y fam wedi dod i ystafell wely'r plentyn gyda chyllell a'i rhedeg ar hyd braich y plentyn. Roedd hyn yn croes-ddweud beth oedd y fam wedi'i ddweud y diwrnod cynt fod y berthynas drosodd. Roedd wedi bygwth y byddai'n cael gwared ar y plentyn er mwyn i'w ddau blentyn ef gael byw yn y tŷ yn lle. Roedd y cariad yn cadw cyllell yn ei hosan ac hefyd ar y cabinet wrth ochr y gwely ac roedd y plentyn wedi ceisio ei guddio gan ei fod yn bryderus am ddiogelwch y fam. Aeth swyddogion ymateb yr heddlu draw a chafodd y plentyn ei gymryd o'r cyfeiriad a'i roi gyda'r fam-gu ar ochr y fam.

Pan gyfwelwyd â'r plentyn, ailadroddodd y plentyn y datgeliadau gan nodi ei fod wedi cael ei roi mewn sied am gamfyhafio a'i fod wedi gweld sawl achos o drais domestig ac ymddygiad hunan-niweidiol y fam. Yn ddiweddarach gwnaed datgeliadau o natur rhywiol i fodryb y fam am y cariad, a chyfwelwyd â'r plentyn gan yr heddlu yng Nghanolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Caerdydd lle gwnaethpwyd datgeliadau pellach o gyffwrdd rhywiol a dinoethi anwedus. Roedd y berthynas rhwng y plentyn a chariad y fam yn amlwg yn cael effaith sylweddol ar y plentyn. Yn ystod y cyfnod hwn dechreuwyd asesiad hyfywedd o'r fam-gu a'r tad-cu, ac ymddengys mai dyma'r tro cyntaf gydol ymglymiad yr asiantaethau gyda'r plentyn i gefndir y tad-cu a'r berthynas â'r plentyn gael ei archwilio'n ffurfiol.

Erbyn Awst 2015 rhoddwyd y plentyn mewn gofal maeth gan yr awdurdod lleol, oherwydd bod y fam wedi'i charcharu am siop-ladrata a'i bod wedi torri ei gorchymyn prawf, ac oherwydd asesiadau hyfywedd negyddol mewn perthynas â'r fam-gu a'r tad-cu. Dyfarnwyd gorchymyn gofal llawn gan llys y teulu yn Ionawr 2016 ac mae'r plentyn yn parhau i dderbyn gofal. Gydol y cyfnod mewn gofal maeth mae'r plentyn wedi parhau i wneud datgeliadau mwy manwl o gamdriniaeth rhywiol pellach y mae'r cariad wedi'u gwadu i'r heddlu. Yn dilyn ymchwiliad ac ymgynghoriad llawn gyda gwasanaeth erlyn y goron gwnaethpwyd y penderfyniad i beidio â dechrau achosion troseddol.

Arfer a dysgu sefydliadol

Nodi pob pwynt dysgu unigol sy'n codi mewn achos (gan gynnwys amlygu arfer effeithiol) gydag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol

Fel rhan o'r Adolygiad Arfer Plant hwn, cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu i ymarferwyr sy'n gysylltiedig â'r plentyn hwn. Hoffai'r Adolygwyr ddiolch i'r rheiny a fynychodd y digwyddiad dysgu am eu cyfraniad i'r dysgu o'r Adolygiad hwn. Cafodd llawer o'r arferion a'r dysgu sefydliadol a ystyrir isod eu codi yn y Digwyddiad Dysgu.

Y broses Adolygiad Arfer Plant

Mynegodd y panel bryderon am yr oedi o ran dechrau'r broses adolygiad arfer plant yn yr achos hwn. Gwnaed yr atgyfeiriad gan yr heddlu o ganlyniad i'w hymglymiad yn yr adolygiad ddynladdiad domestig; heb farwolaeth efallai na fyddai'r Bwrdd Diogelu wedi cael gwybod am y plentyn hwn o gwbl. Roedd yr atgyfeiriad yn heriol i is-grŵp adolygu arfer plant Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro gan fod yr agwedd "niwed difrifol a pharhaol i iechyd neu ddatblygiad" yr achos yn ddadleuol o ystyried bod y plentyn, ar adeg yr atgyfeiriad, mewn gofal maeth ac yn ymateb yn dda i amgylchedd gwell a theulu cefnogol. Fodd bynnag, cafodd y penderfyniad i barhau â'r adolygiad arfer plant ei wneud, nid yn unig ar sail effaith y camdriniaeth rhywiol yr oedd y plentyn wedi'i ddiodeff ond hefyd oherwydd effaith yr esgeulustod a'r camdriniaeth emosïynol hir dymor. Nodwyd y byddai'r achos o bosibl yn amlygu dysgu ehangach ar gyfer partneriaid aml-asiantaeth a chytunwyd y dylid parhau i AAP. Arweiniodd yr oedi o ran dechrau'r adolygiad at heriau i'r broses, yn enwedig doedd dim un o'r gweithwyr cymdeithasol a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â gofal y plentyn ar yr adeg yn gweithio yno mwyach nac ar gael i fynychu'r digwyddiad dysgu. Mae diffyg eglurder a manylder mewn rhai adrannau o'r nodiadau achos ar gyfer y plentyn, ac mae hyn wedi arwain at hanes a chronoleg gwael. Mae hyn yn golygu bod rhai o'r cwestiynau a gododd o'r drafodaeth ar yr amserlen 2 flynedd yn parhau heb eu hateb.

Yn y Digwyddiad Dysgu dywedodd ymarferwyr nad oedd doctor y plentyn yn bresennol ac yn ôl y sôn roedd y doctor yn adnabod y teulu'n dda. Er gwaetha hyn, nid oedd unrhyw gofnod bod y plentyn wedi cael ei weld gan y doctor yn ystod cyfnod yr adolygiad. Gallai'r doctor fod wedi bod yn delio gydag oedolion y teulu, ac yn aml dyma lle mae ffocws y doctor ac felly nid yw'r plentyn yn cael ei weld. Awgrymodd Ymarferwyr y Digwyddiad Dysgu hefyd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael cynrychiolaeth o'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn y Digwyddiad Dysgu i helpu er mwyn deall y cyngor cyfreithiol a roddwyd yn yr achos hwn, tra'n cydnabod ar yr un pryd nad hwy yw'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau.

Llais y Plentyn

Er mwyn i unrhyw blentyn gael ei gefnogi'n llawn rhaid i weithwyr proffesiynol ymgysylltu â'r rhieni ac aelodau ehangach y teulu. Fodd bynnag, rhaid i hyn gael ei gydbwysu â'r angen i sicrhau bod yr holl wasanaethau sy'n gysylltiedig yn canolbwyntio ar y plentyn. Gydol cyfnod yr adolygiad hwn nid oedd llawer o gofnod am gyswllt a thrafodaeth uniongyrchol â'r plentyn. Nid oes llawer o dystiolaeth bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn wedi'u casglu a'u cefnogi. Roedd ymddygiad y fam yn golygu bod nifer o weithwyr proffesiynol yn canolbwyntio ar ei hanghenion hi yn lle anghenion y plentyn. Gydol cyfarfodydd grwpiau craidd, adolygiadau ac ymweliadau cartref, nodwyd bod llawer o'r dialog yn ymwneud â'r fam yn lle'r plentyn, er enghraifft pryderon o ran ei bod hi eisïau cymorth gyda'i sefyllfa cartref a thrafodaethau hir am dor-perthynas y fam. Mae'r model Arwyddion Diogelwch sydd bellach wedi'u cyflwyno yng Nghyngor Caerdydd yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod plant yn cael eu gweld a'u cyfweld. Cynhelir yr ymarfer tri thŷ sy'n sicrhau bod plant yn cael archwilio ac arddangos, un ai ar lafar, yn ysgrifenedig neu trwy luniau a chwarae, beth sy'n gweithio'n dda, beth maen nhw'n bryderus yn ei gylch a beth maen nhw eisïau ei weld yn digwydd. Yn y broses hon disgwylir i weithwyr dystio eu bod wedi siarad â'r plentyn ar ei ben ei hun ac mewn amgylchedd priodol i glywed ei safbwyntiau, dymuniadau a theimladau. Mae'n bwysig mai dim ond pan fo'r plentyn sy'n rhan o'r adolygiad hwn yn teimlo'n ddiogel y maen nhw'n datgelu'r camdriniaeth a ddigwyddodd yn y cartref cyn iddo gael ei roi mewn gofal maeth.

Ymateb yr ymarferwyr i'r fam a'r ffaith ei bod wedi tarfu ar y broses Amddiffyn Plant

Roedd y fam yn cael ei disgrifio'n aml gan yr ymarferwyr fel ymosodol, gwrthdrawiadol ac ataliol. Roedd ei hymddygiad yn aml yn ystrywgar a gwyrol o ran natur i sicrhau nad oedd gweithwyr proffesiynol yn gallu cael at y plentyn. Yn y Digwyddiad Dysgu dywedodd ymarferwyr bod cynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd ac hyd yn oed rhai ymweliadau statudol amddiffyn plant 'yn troelli o gwmpas y fam', ei phryderon, ei chamddefnydd o ran sylweddau a'i pherthnasau. Roedden nhw'n cael eu harallgyfeirio o'u prif ddiben drwy 'helpu'r' fam gan gredu felly eu bod yn hybu ei hymgysylltiad, er na arweiniodd hyn at unrhyw gynnydd parhaus neu ystyrlon. Pe bai'r fam yn cael ei herio ynghylch ei methiant i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau neu gydymffurfio â'r cynllun amddiffyn plant, a phe awgrymwyd bod ei hymddygiad yn gwaethygu, byddai'r fam yn cynhyrfu ac yn gwylltio. Roedd cyfranogwyr y Digwyddiad Dysgu o'r farn, pan fyddai'r fam yn cerdded allan o gyfarfodydd, bod rhaid iddyn nhw ohirio unrhyw drafodaeth pellach yn ei absenoldeb. Roedd hi felly'n llwyddo i amharu ar y broses amddiffyn plant. Yr un Grŵp Craidd lle *cafwyd* hanes effeithiol o rannu a dadansoddi gwybodaeth, cynllun gweithredu clir a datganiad penodol o'r canlyniadau a fyddai'n digwydd pe na chydymffurfiwyd â'r cynllun, oedd yr un Grŵp Craidd na ddaeth y fam iddo. Ymateb y fam i'r arfer mwy pendant hwn oedd cydymffurfio â'r gwasanaethau a'r cynllun, just digon ac am ddigon hir, i osgoi canlyniadau diffyg cydymffurfiaeth h.y. byddai'n cydymffurfio mewn modd cuddiedig.

Dylai ymarferwyr sicrhau pan fo ymddygiad neu weithredoedd rhieni yn atal neu'n cyfaddawdu trafodaethau a phrosesau cynllunio diogelu angenrheidiol, dylid parhau â'r drafodaeth neu'r cyfarfod yn absenoldeb y rhieni. Gall gweithwyr proffesiynol gynnal cyfarfod i rannu pryderon, gwybodaeth a strategaethau a llunio cynllun yn absenoldeb y rhieni, ond dylid wastad creu cynllun i rannu'r hyn a drafodwyd gyda'r teulu ar ôl y cyfarfod. Mae gan y BRhDP brotocol aml-asiantaeth ar gyfer gweithio â theuluoedd nad ydynt yn cydymffurfio â materion diogelu sydd â'r nod o gynghori staff i ddeall ac ymateb i broblemau o'r fath. Mae'r protocol yn hen nawr (Hydref 2011) ac mae angen iddo gael ei adolygu a'i ddiweddarau ar frys.

Caniatâd i Rannu Gwybodaeth

Fel y nodwyd uchod, cafodd yr Asesiad Cychwynnol ar ddechrau'r cyfnod dan adolygiad ei rwystro oherwydd diffyg cydweithrediad y fam a'r ffaith ei bod wedi gwrthod rhoi caniatâd i'r gweithiwr cymdeithasol gysylltu ag asiantaethau eraill i geisio gwybodaeth am y plentyn a'r teulu. O ystyried hanes pryderon blaenorol a thri atgyfeiriad amddiffyn blaenorol yn yr achos hwn, dylid bod wedi rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod y fam wedi gwrthod rhoi caniatâd i rannu gwybodaeth at ddibenion yr Asesiad Cychwynnol, ar y sail bod y plentyn mewn perygl o niwed sylweddol.

Mae sawl adolygiad blaenorol wedi nodi bod methiant yr ymarferwyr ac asiantaethau i rannu gwybodaeth yn briodol am blant a'u teuluoedd yn gallu arwain at ganlyniadau difrifol i'r plentyn, trwy ei roi mewn perygl o niwed sylweddol.

Yn yr adolygiad hwn yn dilyn ymholiad am gamdrinidaeth mewn cartrefi plant yng Ngogledd Cymru yn 2002 nododd Arglwydd Carlile:

'Nid oes unrhyw beth yn Adroddiad Caldicott, Deddf Diogelu Data 1998 na Deddf Hawliau Dynol 1998, a ddylai atal y broses o gyfnewid gwybodaeth mewn modd cyfreithlon a chyfiawnadwy at ddibenion amddiffyn plant neu atal trosedd difrifol.'

Yn adroddiad Arglwydd Laming ar 'Ymholiad Victoria Climbié' mae Argymhelliad 13 yn cynnwys '*...rhaid ei gwneud yn glir mewn achosion sydd heb label adran 47 penodol, wrth geisio caniatâd y rhieni neu os bydd rhieni yn gwrthod rhoi caniatâd, na ddylai hyn atal y broses o gasglu a rhannu gwybodaeth. Dylai hyn, os oes angen, gynnwys siarad â'r plentyn.'*

Yn yr un modd, mae Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008 yn nodi dan adran 1.4 'Rhannu Gwybodaeth ymysg Gweithwyr Proffesiynol' bod '*rhannu a chyfnewid gwybodaeth berthnasol rhwng gweithwyr proffesiynol mewn modd effeithiol yn hanfodol er mwyn diogelu plant. Nid yw'r gyfraith fel arfer yn rhwystro datgelu gwybodaeth. Nid oes unrhyw gyfyngiad yn y Ddeddf Diogelu Data neu unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n atal pryderon o ran unigolion yn cael eu hamlygu a'u rhannu rhwng asiantaethau at y diben o amddiffyn plant. Mae adroddiadau Bichard a Carlile yn cadarnhau'r angen i fod yn ymwybodol*

y gall pryderon gan nifer o ffynonellau, nad ydynt efallai ar eu pen eu hunain yn arwyddocaol, greu darlun a all awgrymu bod plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol ac felly mae angen i weithwyr proffesiynol weithredu i'w hamddiffyn. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid cael caniatâd cyn rhannu gwybodaeth bersonol â thrydydd partion, ond mae lles y cyhoedd o ran amddiffyn plant wastad yn bwysicach na lles y cyhoedd o ran cynnal cyfrinachedd neu gael caniatâd gan deululoedd. Diogelwch y plentyn yw'r peth pwysicaf wrth bwysu a mesur y lles hwn'.

Mae'r Cod Ymarfer ar ymarfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn nodi;

'Mae'r parodrwydd a'r gallu i rannu gwybodaeth bersonol priodol a pherthnasol rhwng ymarferwyr a darparwyr gwasanaeth yn holl bwysig o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol' a 'phan fo plentyn neu oedolyn yn cael ei nodi fel unigolyn mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod dylid tybio bod yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu ymysg partneriaid perthnasol' yn gynnar yn y broses cyn belled â bod hynny'n gyfreithiol...' a 'Os bydd unrhyw un â chyfrifoldeb rhianta dros blentyn dan 16 yn gwrthod asesiad ar gyfer y plentyn hwnnw..... Rhaid diystyru gwrthodiad rhiant... os yw'r awdurdod lleol yn amau bod y plentyn yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn unrhyw ffordd arall neu mewn perygl o hynny.'

Rhyngwyneb â'r Gwasanaethau Oedolion

Fel y nodwyd yn flaenorol roedd y fam yn gysylltiedig â'r UAP gydol bywyd y plentyn. Cydnabuwyd hefyd fod ymarferwyr wedi caniatáu i'r fam eu hatal rhag cael dialog agored gyda'r plentyn ac ni wnaethant bob amser sicrhau bod y plentyn wrth wraidd eu hymyraethau. Roedd yn amlwg i'r adolygwyr wrth ddarllen y llinell amser, er y bu rhywfaint o gyfathrebu gyda gweithiwr cymdeithasol y gwasanaeth UAP, a bod y gweithiwr cymdeithasol hwn wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd grwpiau craidd, yn achlysurol yn unig oedd hynny. Roedd llawer o'r rhyngweithio gydol y broses rhwng yr UAP a'r fam, felly heb ei chaniatâd hi, nid oedd modd rhannu llawer o'r wybodaeth yr oedd ganddynt. Pwysleisiwyd yn glir yn y llinell amser y gellid cryfhau'r rhyngwyneb rhwng y gwasanaethau oedolion a phlant.

Gwneud Penderfyniadau o fewn Amserlen Plentyn

Roedd y fam yn yr achos hwn, yn ôl ei chyfaddefiad ei hun yn 2014, wedi treulio 7 mlynedd (i mewn ac allan) yn cael triniaethau am ei dibyniaeth ar gyffuriau ac yn ystod yr amser hwnnw nid oedd wedi ymgysylltu'n gadarnhaol nac yn gyson â'r UAP a heb wneud unrhyw gynnydd cadarnhaol tuag at roi'r gorau na hyd yn oed leihau ei defnydd o gyffuriau. Roedd y 7 mlynedd hyn yn cynnwys ei beichiogrwydd a chwe mlynedd cyntaf bywyd y plentyn. Yn ystod y chwe blynedd cyntaf cafodd y plentyn ei amlygu i gamddefnydd y fam, camdriniaeth domestig a gweithgarwch troseddol. Nid oedd gan y plentyn gartref sefydlog, ac nid oedd ei anghenion iechyd (yn cynnwys iechyd deintyddol) a'i addysg yn cael eu diwallu, roedd presenoldeb a phrydlondeb ysgol y plentyn yn wael, yn ogystal â'i ymddangosiad ar adegau a oedd yn ynysu'r plentyn. Roedd y plentyn yn cael ei amlygu i aelodau estynedig o deulu'r fam, cymdeithion a phartneriaid yr oedd gan o leiaf un ohonynt hanes o gollfarnau am drais a chamddefnyddio sylweddol ac a oedd, yn ôl y sôn, wedi cam-drin y plentyn yn rhywiol. Yn ôl Brown a Ward yn eu hadroddiad 2013 'Gwneud penderfyniadau o fewn amserlen plentyn' gall plant sy'n aros gyda rhieni sydd heb wneud cynnydd sylweddol o ran goresgyn patrymau ymddygiad negyddol a chynnig cartref magwrol o fewn ychydig fisoedd wedi eu genedigaeth barhau i gael eu cam-drin am gyfnodau hir.

Mae polisïau a deddfwriaeth ynghlwm wrth yr egwyddor ei bod hi'n well i blant gael eu magu gan eu teuluoedd. Er mwyn nodi'r ychydig blant na fydd eu rhieni yn gallu diwallu eu hanghenion o fewn amserlen priodol, mae angen i weithwyr proffesiynol roi'r egwyddorion hynny i un ochr. Mae oedi gyda phenderfyniadau yn golygu bod plant yn cael eu hamlygu am gyfnod hir i gamdriniaeth ac esgeulustod, aflonyddwch o ran ymlyniad â gofalwyr, lleoliadau ansefydlog ac ansicrwydd estynedig ynghylch eu dyfodol. Mae ymchwil rhyngwladol wedi dangos bod profiadau negyddol fel hyn yn ystod plentyndod neu PPNau yn gallu arwain at aflonyddwch corfforol a chemegol yn yr ymennydd a all bara oes. Gall y newidiadau biolegol sy'n gysylltiedig â'r profiadau hyn effeithio ar sawl system organ a chynyddu'r risg, nid yn unig ar gyfer namau o ran capasiti ac ymddygiad dysgu yn y dyfodol, ond hefyd o ran canlyniadau iechyd corfforol a meddwl gwael. Mae hyn wedi'i ategu gan astudiaethau diweddar o boblogaeth Cymru¹. Mae oedolion yng Nghymru a gafodd eu cam-drin yn gorfforol neu'n rhywiol fel plant neu eu magu mewn

cartrefi lle roedd trais domestig, camddefnydd o ran alcohol neu gyffuriau, yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiadau gwrthgymdeithasol ac sy'n niweidio eu hiechyd. Maen nhw hefyd yn fwy tebygol o gael iechyd meddwl gwael a chael eu diagnosisio â chlefyd cronig yn ddiweddarach mewn bywyd.

Roedd ymarferwyr yn y Digwyddiad Dysgu yn cydnabod bod yr achos wedi 'drifftio' gan awgrymu y byddai'n arfer da i gael adolygiad uwch reolwyr mandad pan fo enwau plant yn parhau ar y gofrestr amddiffyn plant yn yr ail gynhadledd adolygu.

Ail-erledigaeth, Aml-erledigaeth a Datgelu

Mae plant sydd wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn y gorffennol yn fwy tebygol o gael eu cam-drin eto na phlant sydd erioed wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso (ail-erledigaeth) ac mae plant sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso hefyd yn debygol o gael eu cam-drin mewn ffyrdd eraill ar yr un pryd (aml-erledigaeth).¹ Cafodd y plentyn sy'n rhan o'r adolygiad hwn ei gam-drin mewn sawl ffordd ac roedd y plentyn ond yn gallu datgelu'r gwahanol fathau hyn o gamdriniaeth mewn camau ar ôl iddo gael ei dynnu o ofal y rheiny oedd yn ei gam-drin. Mae profiad y plentyn o ddioddef sawl ffurf o gamdriniaeth a'r patrwm datgelu yn nodweddiadol ac mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o hyn er mwyn iddynt sylweddoli pa mor agored i niwed yw'r plant sy'n cael eu cam-drin y dônt ar eu traws, a chymryd hyn i ystyriaeth wrth asesu'r risg.

Esgeulustod Deintyddol

Un o'r pryderon a nodwyd yn ystod ymholiadau A47 am y plentyn hwn ar ddechrau'r cyfnod dan adolygiad oedd y pydredd deintyddol helaeth a oedd yn bodoli a arweiniodd at y plentyn yn cael deg daint wedi'u tynnu dan anesthetig cyffredinol. Mae iechyd y geg gwael yn effeithio'n negyddol ar weithgareddau bob dydd ac ansawdd bywyd plant. Gall pydredd deintyddol heb ei drin achosi poen, colli cwsig, maeth gostyngol, cyfyngiadau swyddogaethol, absenoldeb ysgol uwch a pherfformiad ysgol is.² Gall yr effaith negyddol hwn gynnwys yr angen am anaesthesia cyffredinol ar gyfer echdyniadau deintyddol weithiau ar fwy nag un achlysur. Mynychodd cynrychiolydd o wasanaeth deintyddol Bwrdd Iechyd y Brifysgol Caerdydd a'r Fro y digwyddiad dysgu gan amlygu'n glir i fynychwyr effaith hir dymor iechyd deintyddol gwael ar unigolyn.

Diffinnir esgeulustod deintyddol fel '*methiant parhaus i ddiwallu anghenion iechyd y geg sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at namau difrifol o ran iechyd y geg neu iechyd a datblygiad cyffredinol plentyn a methiant neu oedi o ran ceisio triniaeth ar gyfer pydredd dannedd neu drawma sylweddol, methiant i gwblhau cwrs triniaeth a argymhellir, neu ganiatáu i iechyd y geg plentyn waethygu mewn modd na ellir ei osgoi*'.³ Prin deuir o hyd iddo ar ei ben ei hun. Mae'n gallu bod yn rhan o esgeulustod mwy cyffredinol plentyn sy'n cynnwys mathau eraill o gamdriniaeth. Gall cydnabod esgeulustod deintyddol yn gynnwys gan weithwyr proffesiynol gofalu iechyd a chymryd camau priodol, os oes angen, gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant, helpu i atal plant rhag niwed pellach.

Cadw Cofnodion a Chyfathrebu Aml-asiantaeth

Yn yr un modd ag adolygiadau eraill, nodwyd rhai problemau gyda chadw cofnodion yn ystod yr adolygiad hwn. Yn benodol roedd digwyddiad yn Ebrill 2015 pan ymwelodd gweithiwr cymdeithasol â'r cartref a chanfod y fam dan ddylanwad sylweddau ac yn gwbl gyfrifol am y plentyn. Nid oedd y gweithiwr cymdeithasol yn gallu dod o hyd i berson diogel i adael y plentyn ag ef, ac, yn ôl ei chofnodion; gofynnodd am help yr heddlu i ddelio â'r digwyddiad hwn a chymryd cyngor gan weithiwr cymdeithasol yn y tîm dyletswydd brys. Fodd bynnag, ni lwyddodd yr heddlu na'r TDB i ddod o hyd i gofnod cyfatebol ac ni chofnododd y gweithiwr cymdeithasol enwau'r gweithwyr proffesiynol y siaradodd hi â hwy. Felly roedd hi'n amhosibl esbonio digwyddiadau'r noson honno'n llawn. Pan drafodwyd hynny gyda'r ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu daeth yn amlwg bod diffyg dealltwriaeth ymysg rhai o'r rheiny a oedd yn bresennol ynghylch rolau gweithwyr proffesiynol, eu pwerau a chyfyngiadau eu pwerau, a allai fod wedi arwain at fethiant o ran cyfathrebu effeithiol ar y noson dan sylw.

¹ Camdriniaeth ac Esgeulustod Plant 31 (2007) 479–502

² CYLCHGRAWN DEINTYDDOL PRYDAIN CYFROL 220 RHIF 9 MAI 13 2016

³ Cyfrol deintyddiaeth 42 (2014) 229 – 239

Crybwyllodd ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu ar y defnydd o'r llinell amser aml-asiantaeth o ran eu helpu i weld y darlun cyfan a deall beth oedd wedi bod yn digwydd i'r plentyn, gan nad oedden nhw'n ymwybodol o'r holl wybodaeth aml-asiantaeth ar adeg eu hymglymiad. Yn benodol roedd ysgol y plentyn yn anymwybodol o lawer o'r wybodaeth aml-asiantaeth, yn enwedig o ran yr asiantaethau a oedd yn gweithio i gefnogi'r fam. Roedd cyfranogwyr y digwyddiad dysgu yn credu y byddai'n ddefnyddiol i'r grŵp craidd gael llinell amser aml-asiantaeth y gallant ei chadw er mwyn monitro cynnydd a wneir yn erbyn y cynllun amddiffyn plant. Dylai llinell amser o'r fath gynnwys dadansoddiad, ac nid cofnod o ddigwyddiadau yn unig, a gallai o bosibl fod yn ffynhonnell dda o dystiolaeth ar gyfer prosesau cyfreithiol gan helpu i leihau oedi.

Mae ymglymiad Addysg yn y broses Amddiffyn Plant yn allweddol. Staff ysgol yw'r ymarferwyr y mae plant oed ysgol fwyaf tebygol o ddatgelu achosion o gamdriniaeth gyda hwy, ac mae plant yn cael mwy o oriau o gyswllt â staff ysgol nag unrhyw weithwyr proffesiynol eraill yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag mae her i'r ysgolion o ran cael cynrychiolaeth ystyrion mewn cyfarfodydd grwpiau craidd a chynadleddau amddiffyn plant sy'n digwydd yn ystod gwyliau ysgol. Lle bo'n bosibl dylid cynnal cynadleddau amddiffyn plant yn ystod y tymor ysgol. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid gwneud trefniadau er mwyn i arweinydd diogelu'r ysgol allu mynychu hyd yn oed y tu allan i'r tymor ysgol.

Y Broses Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd (HAC)

Roedd yn amlwg yn yr adolygiad y gallai cyfathrebu rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau plant fod wedi bod yn well. Roedd achosion pan na chafodd HACau (DAH1 gynt) eu cwblhau pan ddylen nhw fod wedi cael eu cwblhau, neu achosion o fethu â nodi risgiau posibl i'r plentyn o fewn y digwyddiadau a adroddwyd, yn enwedig yr achlysuron pan gafodd y fam ei harestio. Tra bo'r wybodaeth hon wedi'i rhannu'n llawn i'w hystyried yn adroddiad yr heddlu ar gyfer y Gynhadledd Amddiffyn Plant - Adolygiad, fel arfer gorau dylid bod wedi'i rhannu ar y pryd. O ran yr HACau (DAH1 gynt) a gwblhawyd ni chafwyd llawer o ddilyniant gan y gwasanaethau plant. Pan fo plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei nodi gan farciwr rhybudd yn systemau gwybodaeth yr heddlu, caiff y plant hynny eu cysylltu drwy gysylltiad â'u rhieni. Os bydd y swyddogion yn ymchwilio'n effeithiol, dylent allu nodi pan fo'r rheiny sydd wedi'u harestio yn gyfrifol am blentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a chyflawni'r gwiriadau lles angenrheidiol, er bod yr adolygiad hwn wedi nodi bod angen cryfhau'r maes hwn.

Gwella Systemau ac Arferion

Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn nododd yr adolygiad y camau canlynol ar gyfer y BDP a'i asiantaethau aelod gan ragweld canlyniadau gwella:-

Mae'r adolygwyr wedi nodi bod nifer o'r pwyntiau dysgu yn yr achos hwn yn bell o fod yn unigryw ac wedi'u tystio mewn adolygiadau arfer plant eraill sydd wedi'u cynnal yma ac mewn manau eraill. Gan fod y pwyntiau dysgu hyn wedi'u nodi dro ar ôl tro, mae Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Caerdydd a'r Fro wedi gofyn i'r Is-grŵp CPR / APR ddatblygu ac arwain ar weithdai dysgu rheolaidd ar gyfer yr holl asiantaethau statudol a phartner ledled Caerdydd a'r Fro. Mae'r themâu cychwynnol ar gyfer y gweithdai dysgu wedi'u nodi fel a ganlyn; llais y plentyn, cydymffurfiaeth guddiedig, sgysiau anodd ag aelodau'r teulu, rhannu gwybodaeth, presenoldeb mewn cyfarfodydd, a dulliau holistig.



Argymhellion:

1. Pan roddir gorchymyn gofal ar gyfer plentyn neu cyn gynted â phosib mewn achos, caiff y penderfyniad ei wneud a'i gofnodi gan aelod perthnasol o'r tîm amlasiantaeth o ran a ddylid cyfeirio adolygiad arfer plant at y Bwrdd Diogelu i'w ystyried.
Bydd hyn yn lliniaru oedi i'r broses AAP.
2. Pan fo'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi rhoi cyngor ynglŷn â phlentyn sydd wedyn yn destun Adolygiad Arfer Plant, cânt eu cynrychioli ar y panel, cyflwyno llinell amser o'u cyfranogiad a chael eu gwahodd i'r Digwyddiad Dysgu os yw'r panel yn ystyried bod angen gwneud hyn.
Bydd hyn yn helpu ymarferwyr i ddeall rolau ei gilydd, gofynion tystiolaethol a'r cyngor cyfreithiol a roddir yn yr achos.
3. Rhaid i Fwrdd Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro (BDPCF) fod yn fodlon ar y canlynol:

- a) ar bob ymweliad amddiffyn plant statudol, mae ymarferwyr wedi cofnodi eu bod wedi siarad â'r plentyn ar ei ben ei hun ac yn yr amgylchedd priodol er mwyn asesu ei wir farn, syniadau a theimladau, a rhoi cyfle i ddatgelu gwybodaeth bosib fel bod llais y plentyn yn cael ei glywed;
 - b) dylai archwiliadau achosion mewnol roi tystiolaeth bod uwch reolwyr mewn gwasanaethau plant yn cofnodi eu cymeradwyaeth o'r cynnydd a wneir yn unol â'r Cynllun Amddiffyn Plant cyn cynnal yr ail gynhadledd adolygu amddiffyn plant ac unrhyw un wedi hynny, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn amserlen y plentyn.
4. Bydd BRhDPCF yn diweddarau ac yn ail-lansio eu 'Protocol Amlasiantaeth ar gyfer Gweithio gyda Theuluoedd nad ydynt yn Cydweithredu ar Faterion Diogelu' ac yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o'i gynnwys.
 5. Dylai rheolwyr a chadeiryddion cynadleddau annibynnol hyrwyddo dilyn y protocol lle bynnag y bo'n briodol i helpu ymarferwyr i roi ymateb awdurdodol i deuluoedd sy'n gwrthwynebu, fel y gellir diogelu plant yn effeithiol. Rhaid i'r polisi hwn nodi'n glir y caniateir cynnal neu barhau â chyfarfod ymarferwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag achos lle mae ymddygiad y rhieni'n atal neu'n amharu ar drafodaethau diogelu angenrheidiol heb i'r rhieni fod yn bresennol, er bod angen bob amser i gynllun fod ar waith i hysbysu'r teulu ar ôl y cyfarfod.
 6. Bydd BRhDPCF yn fodlon bod hyfforddiant, cymorth a chynghor ynglŷn â'r angen am rannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng a'r tu mewn i asiantaethau at ddibenion diogelu plant, gan gynnwys pan fo angen caniatâd rheini a phan nad oes ei angen yn ogystal ag ymholiadau a gwiriadau o aelodau'r teulu ehangach, ar gael i staff sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ym mhob asiantaeth partner.
 7. Bydd pob asiantaeth yn sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu wrth ddechrau ymwneud â nhw bod lles y plentyn yn hollbwysig, y caiff yr holl wybodaeth berthnasol ei rhannu ac y caiff pob cam gweithredu angenrheidiol ei gymryd.
 8. Bydd BRhDPCF yn fodlon bod ymarferwyr yn deall perthnasedd PPNau a'u bod yn ymwybodol o'u heffaith hirdymor bosib ac yn deall cysyniadau aml-erledigaeth ac ail-erledigaeth. Dylid defnyddio a rhoi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth hon wrth asesu'r risg i blant a gwneud penderfyniadau am eu gofal yn y dyfodol.
 9. Bydd yn ofynnol gan BDPRhCF i bob asiantaeth bartner sicrhau bod aelodau o'i staff yn mynd i hyfforddiant Grŵp 2 yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn fedrus, yn hyderus ac yn gallu 'holi a gweithredu' yn rhagweithiol, gan nodi dioddefwyr cam-drin domestig a chynnig cymorth iddynt.
 10.
 - a) Bydd BDPRhCF yn sicrhau bod pob ymarferydd sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn ymwybodol o gysyniad esgeulustod deintyddol.
 - b) Prin deuir o hyd iddo ar ei ben ei hun. Mae'n gallu bod yn rhan o esgeulustod mwy cyffredinol plentyn sy'n cynnwys mathau eraill o gamdriniaeth. Mae nodi'n gynnar a chymryd camau gweithredu priodol yn gallu helpu i atal plant rhag profi rhagor o niwed.
 - c) Bydd BIPCF yn sicrhau bod pob deintydd cyffredinol yn gwybod sut i gael hyfforddiant a chynghor priodol ynglŷn â diogelu plant fel bod yr ymarferwyr yn hyderus wrth weithredu'n briodol pan fyddant yn gweld esgeulustod deintyddol mewn plentyn.
 11. Bydd BDPRhCF yn darparu hyfforddiant amlasiantaeth ar sail dreigl i hysbysu ymarferwyr am eu rolau a'u pwerau eu hunain a rolau a phwerau gweithwyr proffesiynol eraill wrth amddiffyn plant.
Bydd hyn yn galluogi gwell dealltwriaeth a chyfathrebu â sawl asiantaeth.

12. Bydd BDPRhCF yn cyflwyno templed llinell amser amlasiantaeth safonol cyson y bydd pob asiantaeth yn gyfrifol am ei gwblhau yn y gynhadledd amddiffyn plant gyntaf. Caiff y llinell amser amlasiantaeth ei chynnal a'i diweddarau ym mhob cyfarfod craidd a chaiff ei gyflwyno fel rhan o'r adroddiad i'r gynhadledd adolygu amddiffyn plant. Bydd hyn yn sicrhau bod asiantaethau'n rhannu gwybodaeth yn effeithiol â'i gilydd.
13. Bydd BRhDPCF yn herio asiantaethau partner os bydd eu hymarferwyr yn penderfynu peidio â mynychu a chymryd rhan mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant a chyfarfod grwpiau craidd yn gyson.
14. Bydd BDPRhCF yn fodlon bod yr adrannau addysg ar draws y rhanbarth yn sicrhau cyfranogiad ystyrion gan ysgol y plentyn a bod aelodau'n mynd i gynadleddau amddiffyn plant a chyfarfodydd grwpiau craidd, hyd yn oed pan fo rhaid trefnu'r rhain yn ystod gwyliau'r ysgol.
15. Bydd Heddlu De Cymru'n adolygu eu gweithdrefn ar gyfer cysylltu rhieni â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant er mwyn atgyfnerthu'r broses. Bydd pob asiantaeth berthnasol yn adolygu ei threfniadau o ran y camau gweithredu i'w cymryd ar ôl derbyn PPN (PPD1 gynt) ac yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o'r ymateb disgwyledig er mwyn sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu plant.

Datganiad gan yr Adolygwr/wyr

ADOLYGWR 1	Dr Lorna Price Doctor Dynodedig Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)	ADOLYGWR 2 (fel sy'n briodol)	Alys Jones Rheolwr Gweithredol, Diogelu, Cyngor Caerdydd
Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Cymhwyster Sicrwydd Ansawdd</i>		Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Cymhwyster Sicrwydd Ansawdd</i>	
<p>Rwy'n gwneud y datganiad canlynol cyn fy ymglymiad gyda'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r plentyn na'r teulu, nac wedi cael cyngor proffesiynol ar yr achos Nid wyf wedi rheoli'r ymarferydd/wyr cysylltiedig yn uniongyrchol. Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn fanwl o ran ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl 		<p>Rwy'n gwneud y datganiad canlynol cyn fy ymglymiad gyda'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r plentyn na'r teulu, nac wedi cael cyngor proffesiynol ar yr achos Nid wyf wedi rheoli'r ymarferydd/wyr cysylltiedig yn uniongyrchol. Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn fanwl o ran ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl 	
Adolygwr 1 (Llofnod)		Adolygwr 2 (Llofnod)	
Enw (Llythrennau breision)	LORNA PRICE	Enw (Llythrennau breision)	ALYS JONES

Dyddiad

11.10.2018

Dyddiad

11.10.2018

Cadeirydd y Panel
Adolygu (Llofnod)



Enw

(Llythrennau breision) DAVID DAVIES

Dyddiad

11.10.2018

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Atodiad 2: Amserlen y Crynodeb

Y broses Adolygiad Arfer Plant

I'w gynnwys yma yn gryno:

- Y broses a ddilynir gan y BDP a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu
- Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a fynychodd
- Roedd aelodau'r teulu wedi cael gwybod, a gofynnwyd am eu safbwyntiau gan eu cynrychioli gydol y digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddynt.

Rhoddodd Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro (BRhDPCF) wybod i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016 ei fod yn comisiynu adolygiad Arfer Plant mewn perthynas ag ADP Achos 03/2016.

Adolygwr Allanol: **Dr Lorna Price**
Doctor Dynodedig
Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)

Adolygwr Mewnol: **Alys Jones**
Rheolwr Gweithredol, Diogelu,
Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Caerdydd

Cadeirydd y Panel: **David Davies**
Pennaeth Cyrhaeddiad i Bawb
Dysgu a Sgiliau, Cyngor Bro Morgannwg

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolir ar y panel yn cynnwys:

- Addysg, Cyngor Bro Morgannwg (Cadeirydd)
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Cymdeithasol Gwasanaethau Plant Caerdydd (Adolygwr)
- Tîm Diogelu Cenedlaethol, GIG Cymru (Adolygwr)
- Addysg, Cyngor Caerdydd
- Tai, Cyngor Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Cymru
- Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion Caerdydd
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig Caerdydd a'r Fro (TCTI)

Gwnaeth y Panel gwrdd rhwng y cyfnod Mawrth 2017 a Rhagfyr 2017 er mwyn adolygu'r wybodaeth aml-
asiantaeth a rhoi dadansoddiad i gefnogi datblygiad yr adroddiad.

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar 28 Medi 2017 a fynychwyd gan gynrychiolwyr o'r asiantaethau canlynol:

- **Heddlu De Cymru** - Ditectif Cwnstabl a Chwnstabl yr Heddlu

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** – Deintydd Pediatrig Ymgynghorol, Nyrs Ysgol, Ymwelydd Iechyd
- **Gwasanaethau Cymdeithasol Gwasanaethau Plant Caerdydd** – Rheolwr Tîm, Gweithiwr Cymdeithasol, Rheolwr Gweithredol, Gweithiwr TCTI
- **Addysg, Cyngor Caerdydd** – Pennaeth
- **Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion Caerdydd** – Rheolwr Tîm, Tîm Alcohol a Chyffuriau Caerdydd, BPI Caerdydd a'r Fro – Uned Dibyniaeth Cymunedol a Gweithiwr Cymdeithasol
- **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru** – Nyrs Ymgynghorol, Cydlynnydd Trin Galwadau Galw GIG Cymru, Swyddog Trin Galwadau Galw GIG Cymru, Uwch Nyrs Ymgynghorol

Teulu wedi gwrthod ymglymiad

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad y derbyniwyd gwybodaeth

Dyddiad y cafodd y llythyr cydnabod ei anfon at Gadeirydd y BDP

Dyddiad y rhannwyd y wybodaeth â'r Arolygiaeth / Arweinwyr Polisi perthnasol

.....

Asiantaethau	Ie	Na	Rheswm
CSSIW	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
HIW	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Heddlu HMI	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Prawf HMI	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Adolygiad Arfer Plant BRhDPCF 03/2016

Adolygiad Estynedig

Cylch Gorchwyl

Cefndir

Cododd y Gwasanaethau Plant bryderon yn Ionawr 2014 nad oedd anghenion gofal sylfaenol y plentyn yn cael eu diwallu – dywedodd yr ysgol bod y plentyn yn gwisgo'n flêr a bod ei bresenoldeb yn wael. Codwyd pryderon hefyd o ran hylendid deintyddol, cynnydd a datblygiad y plentyn. Cododd gweithwyr proffesiynol bryderon hefyd ynghylch ymglymiad y fam â'r asiantaethau (UDC a methu profion). Cafodd y plentyn ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (Esgeulustod a Chamdriniaeth Emosiynol). Roedd pryderon o ran perthynas y fam â dyn newydd. Gwnaeth y fam gais Cyfraith Claire ar gyfer dyn, cysylltodd yr heddlu â'r fam a gwrthododd y fam y wybodaeth a gynigiwyd o ran y dyn ac ni pharatowyd unrhyw adroddiad datgelu Cyfraith Claire o ganlyniad.

Gwnaeth y plentyn ddatgeliadau o natur gorfforol a rhywiol am y dyn. Cafodd y plentyn ei dynnu o'r cyfeiriad. Cafodd y plentyn ei roi mewn gofal maeth.

Roedd tân yng nghyfeiriad cartref y fam a'r tad-cu. Canfuwyd yn ddiweddarach y daethpwyd o hyd i'r tad-cu wedi marw yn ystafell folchi lan lofft yr eiddo ac roedd ei farwolaeth yn cael ei drin fel un drwgdybus. Roedd y fam yn gysylltiedig â'r ymchwiliad fel rhywun a ddrwgdybiwyd.

Amserlen yr Adolygiad:

1 Ionawr 2014 – 10 Ionawr 2016

Mae'r panel adolygu wedi penderfynu nad oedd angen cynnwys yn yr amserlen y digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r plentyn gael ei dynnu o'r cartref fodd bynnag; bydd yr adolygwyr yn parhau i ystyried unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r amserlen fel rhan o'r cyd-destun.

Meini Prawf ar gyfer adolygiad estynedig

Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau estynedig wedi'u gosod yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014; Gweithio Ynghyd i Ddiogelu Pobl Cyf. 2 – Adolygiadau Arfer Plant:

3.12 Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad arfer plant estynedig mewn unrhyw un o'r achosion canlynol, o fewn ardal y Bwrdd, os gwyddir neu honnir bod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso a bod y plentyn wedi:

- marw; neu
- wedi cael anaf a allai roi ei fywyd mewn perygl; neu
- wedi cael nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad; **a**

roedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu yn derbyn gofal (gan gynnwys plentyn sydd wedi troi'n 18 ond a oedd yn derbyn gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis blaenorol -

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod gan blentyn anaf difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

Tasgau craidd

- Pennu p'un a yw penderfyniadau a chymau yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau gwasanaethau a enwir a'r Bwrdd.
- Archwilio gwaith rhyngasiantaeth a darpariaeth gwasanaeth i'r plentyn a'r teulu.
- Pennu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chymau yn ffocysu ar unigolion.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau teulu priodol a rhoi gwybod iddynt am brif agweddau cynnydd.

- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion paralel sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

Yn ogystal â'r broses adolygu, dylid ystyried y canlynol:

- Lle roedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am y plentyn a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac wedi'i ystyried yn asesiad y gweithwyr proffesiynol, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r plentyn, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut gwnaeth y wybodaeth yna gyfrannau at y canlyniad i'r plentyn?
- P'un a oedd y cynllun amddiffyn plant (a/neu'r cynllun plentyn sy'n derbyn gofal neu'r cynllun llwybr) yn gadarn, ac yn briodol i'r plentyn hwnnw, y teulu a'u hamgylchiadau.
- P'un a oedd y cynllun wedi'i weithredu, ei fonitro a'i adolygu'n effeithiol. Wnaeth yr holl asiantaethau gyfrannu'n briodol i ddatblygiad a darpariaeth y cynllun aml-asiantaeth?
- Pa agweddau o'r cynllun weithiodd yn dda, beth wnaeth ddim gweithio'n dda a pham? Y graddau y gwnaeth asiantaethau herio ei gilydd o ran effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y canlyniadau cytunedig i'r plentyn. P'un a gafodd y protocol i weithwyr proffesiynol ei ddefnyddio.
- P'un a gafodd dyletswyddau statudol perthynol asiantaethau sy'n gweithio gyda'r plentyn a'r teulu eu diwallu.
- P'un a oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos a wnaeth atal asiantaethau rhag diwallu eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).
- Mae yna ymchwiliadau troseddol parhaus; fodd bynnag; mae'r rhain yn annhebygol o ymyrryd gan mai dyddiad y treial yw **22 Mawrth 2017**.

Tasgau Penodol y Panel Adolygu

- Cytuno ar yr amserlen ar gyfer yr adolygiad gan gynnwys unrhyw atgyfeiriad angenrheidiol at unrhyw wybodaeth gefndir neu ddiwyddiad blaenorol.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad na nodwyd eisoes gan yr Is-grŵp Adolygu Arfer Plant, creu amserlen a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau brys sydd eisoes wedi'u cymryd. Mae'r Panel wedi penderfynu mai'r asiantaethau priodol i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn ac felly gyfrannu fel aelodau o'r panel adolygu yw:
 - Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
 - Gwasanaethau Plant: Awdurdod Lleol Caerdydd
 - Gwasanaethau Addysg: Awdurdod Lleol Caerdydd
 - Heddlu De Cymru
 - Tai, Awdurdod Lleol Caerdydd
 - Tîm Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
 - Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
 - Gwasanaethau Oedolion, Awdurdod Lleol Caerdydd
- Creu amserlen gyfun, dadansoddiad cychwynnol a hypothesis.

- Cynllunio gyda'r adolygwr/wyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, gan gynnwys nodi mynychwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth. Yn seiliedig ar amserlen y Panel ar gyfer cwblhau'r adolygiad bydd y digwyddiad dysgu yn cael ei drefnu ar gyfer **28 Medi 2017**.
- Cynllunio gyda'r adolygwyr y trefniadau cyswllt gyda'r plentyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad. Ceisir cyngor o ran sut i ymgysylltu â'r teulu / teulu geni yn unol â'r adolygiad ac unrhyw aelodau teulu perthnasol.
- Derbyn ac ystyried yr adroddiad adolygu arfer plant drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i ddiwallu, yr hypothesis cychwynnol wedi'i ateb ac unrhyw ddysgu ychwanegol wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Is-grŵp Adolygu Arfer Plant a'r BRhDP i'w hystyried a chytuno arnynt. Cynigir bod yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Is-grŵp Adolygu Arfer Plant yn ei gyfarfod ar **20 Mawrth 2018** ac yng nghyfarfod y BRhDP sydd wedi'i drefnu ar gyfer **17 Ebrill 2018**. Cynigir y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gwblhau ar ddiwedd **Ebrill 2018** a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn **Mai 2018**.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl cwblhau'r adolygiad a chyn cael cadarnhad y BRhDP. Bydd Cadeirydd y Panel a'r Adolygwr yn rhoi adborth i'r teulu cyn cyfarfod y BRhDP sydd wedi'i drefnu ar gyfer **17 Ebrill 2018**.
- Nodi a chomisiynu adolygwr/wyr i weithio gyda'r panel adolygu yn unol â'r canllaw ar gyfer adolygiadau estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, creu amserlen a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau brys sydd eisoes wedi'u cymryd.
- Creu amserlen gyfun, dadansoddiad cychwynnol a hypothesis.
- Cynllunio gyda'r adolygwr/wyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, gan gynnwys nodi mynychwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygwr /wyr y trefniadau cyswllt gyda'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried yr adroddiad adolygu arfer plant drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i ddiwallu, yr hypothesis cychwynnol wedi'i ateb ac unrhyw ddysgu ychwanegol wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl cwblhau'r adolygiad a chyn ei gyhoeddi.
-

Datganiad Cyfrinachedd

1. Rwyf wedi cael gwybod ac rwy'n cytuno na fyddaf dan unrhyw amgylchiadau (oni bai y bydd Cadeirydd y panel yn nodi'n wahanol) unrhyw agwedd o'r Adolygiad Arfer ag unrhyw berson sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r adolygiad neu wedi'i benodi i'r adolygiad.
2. Rwyf wedi cael fy nghyfarwyddo ac rwy'n cytuno, pe bai unrhyw berson a benodwyd i'r ymholiad adolygu neu fel arall yn ceisio trafod yr adolygiad, ni fyddaf yn rhoi unrhyw wybodaeth i'r person hwnnw.
3. Rwy'n cytuno i roi gwybod am unrhyw ymgais o'r fath i Gadeirydd yr adolygiad.

Llofnod:	Dyddiad:
Enw (Llythrennau Breision):	Swydd / Rôl:
Rhif Cyswllt:	
Sefydliad y Rhiant:	
Llofnod y Tyst:	Dyddiad:
Enw (Llythrennau Breision):	Safle / Statws:

Rhannu gwybodaeth

- Mae ADD (Adolygiad Dynladdiad Domestig) hefyd yn cael ei gynnal gan Gyngor Caerdydd i mewn i farwolaeth y tad-cu a chytunwyd gan y Panel AAP a'r Panel ADD oherwydd y bydd nodweddion sy'n debyg ac unigolion yn gysylltiedig â'r ddau achos, bydd Adolygwyr yr AAP yn cwrdd ag aelodau'r teulu ar ran yr AAP a'r ADD.
- Cytunwyd gan y Panel y gallai gwybodaeth / darganfyddiadau o'r AAP hwn gael eu rhannu gyda'r ADD.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Plant

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Y *Panel Adolygu* i gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Bwrdd yn ei anfon i'r asiantaethau perthnasol ar gyfer sylwadau terfynol cyn ei gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu aml-asiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau gwasanaeth disgwylidig yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio cyhoeddi ar wefan y Bwrdd.
- Cytuno i rannu gwobodaeth ag asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Cadeirydd y Bwrdd fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw sylwadau cyhoeddus ac ymatebion i'r cyfryngau yn gysylltiedig â'r adolygiad hyd nes i'r broses gael ei chwblhau.

Datganiad Cau Cyfrinachedd

I'w gwblhau os oes unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd ers i'r adolygiad gael ei gwblhau.

Enw:

Swydd / Rôl:

Sefydliad y Rhiant:

Llofnod:

Dyddiad:

Rhan 3: Cytundeb i bobl sy'n gadael neu'n cwblau gweithgarwch â'r adolygiad.

1. Rwy'n ymwybodol o gyfrinachedd yr adolygiad a bod y cyfrinachedd hwn yn hanfodol i'w fodolaeth.

Rwyf hefyd yn ymwybodol y gallai torri'r cyfrinachedd hwn effeithio'n uniongyrchol ar gyfrifoldebau a galluoedd yr adolygiad.

2. Rwy'n cytuno na fyddaf yn trafod nac yn rhannu unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r adolygiad ag unrhyw berson neu sefydliad heb ganiatâd ysgrifenedig Cadeirydd yr adolygiad.

3. Rwy'n cytuno na fyddaf yn gwneud unrhyw ymholiadau pellach ar ran yr adolygiad, a phe bai unrhyw berson neu sefydliad yn cysylltu â mi yn credu fy mod dal yn gysylltiedig â'r adolygiad; byddaf yn gwrthod yr ymholiad ac yn cyfeirio'r person neu'r sefydliad i Gadeirydd yr adolygiad.

4. Rwy'n cytuno na fyddaf yn trafod yr adolygiad ag unrhyw berson, gan gynnwys unrhyw aelod presennol na blaenorol o'r adolygiad, ac y byddaf yn rhoi gwybod i Gadeirydd yr adolygiad am unrhyw ymgais i gyfathrebu gwybodaeth.

Rwy'n cytuno i beidio â chofnodi na chadw yn fy meddiant unrhyw ddeunydd, p'un ai'n ysgrifenedig neu fel arall, sy'n ymwneud â'r adolygiad, ac na fyddaf, dan unrhyw amgylchiadau, yn cyhoeddi neu'n gwneud yn gyhoeddus unrhyw agwedd o'r adolygiad neu'n datgelu hunaniaeth unigolion sy'n rhan o'r adolygiad.

Dyddiad:

Llofnod:

Tystiwyd gan (Llythrennau Breision):

Llofnod:

ATODIAD 2

**Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg
Crynodeb o'r Amserlen
Parthed: AAP BRhDP CF 03/2016**

Math o weithgaredd	2014											
	Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Bwrdd Iechyd y Brifysgol							Plentyn yn cael ei dderbyn fel achos dydd i'r Ysbyty Deintyddol. Echdyniadau deintyddol helaeth dan anaestetig oherwydd bod y dannedd wedi pydru.		Cyfarfod y grŵp craidd. Esboniwyd y byddai parhau ag ymglymiad gwael â'r Uned Dibyniaeth Cymunedau yn arwain at leihau ei meddyginiaeth a dod â'i thriniaeth i ben			
Yr Heddlu	Trafodaeth strategaeth rhwng yr heddlu a'r Gwasanaethau Plant. Penderfyniad i barhau â Chynhadledd Achos Amddiffyn Plant Cychwynnol.											
Gwasanaethau Cymdeithasol	Asesiad Cychwynnol wedi'i gwblhau gan y				Ymholiadau A.47 / Asesiad Craidd wedi dod i ben.	Cynhadledd Amddiffyn Plant Cychwynnol wedi'i chynnal.	Grŵp Craidd wedi'i gynnal. Gwelliannau wedi'u nodi o ran cyflwr y	Cynhadledd Amddiffyn Plant (Adolygiad) Cyntaf; Enw'r plentyn wedi'i		Grŵp Craidd wedi'i gynnal. Y fam wedi rhoi gwybod	Grŵp Craidd wedi'i gynnal. Y fam	

Math o weithgaredd	2014											
	Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
	<p>Gwasanaetha u Plant. Pryderon o ran y fam yn camddefnyddi o sylweddau, tystiolaeth o esgeuluso anghenion gofal sylfaenol y plentyn, ansefydlogrwydd o ran y cartref.</p> <p>Ymholiadau A47 / Asesiad Craidd wedi dechrau.</p>				<p>Pryderon sylweddol o ran niwed emosynol, esgeulustod, camddefnyddi o sylweddau ar ran y fam, gweithgaredda u troseddol y fam. Teulu ar fin cael eu troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent.</p>	<p>Plentyn wedi'i gofrestru dan y categorïau Esgeulustod a Chamdriniaeth Emosiynol.</p> <p>Grŵp Craidd wedi'i nodi. Cynllun Amddiffyn Plant Amlinellol wedi'i greu.</p> <p>Achos wedi'i drosglwyddo i'r tîm gwaith cymdeithasol hir dymor.</p>	<p>cartref a gofal cyffredinol y plentyn, ond pryderon wedi'u nodi o ran presenoldeb a phrydlondeb ysgol gwael ac ymglymiad gwael iawn gan y fam gyda'r Uned Dibyniaeth Cymunedol.</p>	<p>gadw ar y gofrestr dan y categorïau Esgeulustod a Chamdriniaeth Emosiynol. Pryderon pellach o ran gofal y plentyn ac ymglymiad gwael y fam gyda'r Uned Dibyniaeth Cymunedol.</p> <p>Cyfarfod y grŵp craidd wedi'i gynnal. Ni fynychodd y fam. Argymhellodd y Cadeirydd y dylid llunio Cytundeb Ysgrifenedig newydd gyda'r gwasanaethau, yn enwedig yr Uned Dibyniaeth Cymunedol. Dylai'r Cytundeb Ysgrifenedig fod mewn lle am dri mis ac os caiff ei dorri dylai Achosion Amlinellol y Gyfraith Gyhoeddus gael eu dechrau oherwydd hanes</p>		<p>ei bod wedi bod mewn perthynas am sawl mis. Roedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi cwblhau gwiriadau; roedd yr heddlu wedi cadw gwybodaeth mewn perthynas â cholffarnau blaenorol am gurfa, cyhuddiadau o drais domestig a meddu ar gyffuriau. Rhoddodd y fam wybod i'r grŵp craidd ei bod wedi rhoi terfyn ar y berthynas ers cael y wybodaeth yma.</p>	<p>wedi mynych u'r UDC ac wedi rhoi samplau wrin dan oruchwyl iaeth d dangosodd sylweddau anghyfreithlon. Mae'r fam nawr ar fethadon y mae'n ei gasglu'n ddyddiol.</p>	

Math o weithgaredd	2014											
	Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
								hir diffyg ymgysylltiad.				

Cynhyrchwyd amserlenni manwl gan y gwasanaethau perthnasol at ddibenion yr adolygiad i helpu i ddeall y rhyngweithiau cymhleth rhwng digwyddiadau a gwasanaethau yn yr achos hwn.
Mae'r grynodedb a'r amserlen rannol hon yn cynnwys manylion cyfyngedig ac anhysbys ac yn cael ei darparu i ategu at yr amlinelliad o'r amgylchiadau yn yr adroddiad Adolygiad Arfer Plant.

Math o weithgaredd	2015												2016
	Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion
Bwrdd Iechyd y Brifysgol	Cyfarfod y grŵp craidd. Ymglymiad y fam gyda'r Uned Dibyniaeth Cymunedol wedi'i nodi fel prin yn dderbyniol.		Roedd y fam yn mynychu'r UDC am ei chysylltiad â dyn. Nododd nad oedd hi mewn perthynas ac mai dim ond ffrind oedd e.										
Yr Heddlu			Cafodd SWP alwad ffôn gan y Fam, yn dymuno gwneud cais Cyfraith Claire mewn perthynas â'i chariad newydd o bum mis.				Derbyniodd y fam ddedfryd carchar am droseddau siop-ladrata a thorri ei hamodau mechniaeth.		Parhaodd y plentyn i wneud datgeliadau o gamdriniaeth gan gynnwys camdriniaeth rhywiol a chafodd ei gyfweld gan yr heddlu.				Cyfweliad pellach yr heddlu wedi'i gwblhau a'r record wedi'i gau.
CAC				Dedfryd Llys am droseddau siop-ladrata.									

Math o weithgaredd	2015												2016	
	Ion	Chw e	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	
				<p>Cafodd y fam Orchymyn Cymunedol 12 mis. Penodwyd swyddog prawf.</p> <p>Methodd y fam â mynychu'r apwyntiad cychwynnol gyda Chwmni Adseyfidu Cymunedol Cymru. Cyflawnodd y fam sawl trosedd siop-ladrata yr un diwrnod ac roedd y fam gyda hi. Mynychodd y fam y Cwmni Adseyfidu Cymunedol ar gyfer yr apwyntiad cychwynnol dan ddylanwad sylweddau. Cysylltodd y Rheolwr Troseddau â'r gwasanaethau cymdeithasol gan nodi ei phryderon nad</p>										

Math o weithgaredd	2015												2016
	Ion	Chw e	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion
				oedd y fam yn addas i ofalu am ei phlentyn y diwrnod hwnnw. Gwnaed trefniadau i dynnu'r plentyn o'r ysgol i gyfeiriad y fam-gu.									
Gwasanaethau Cymdeithasol	Ail Gynhadledd Amddiffyn Plant - Adolygiad. Nodwyd gwelliannau cadarnhaol ond roedd angen eu cynnal. Cafodd y plentyn ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant dan y categorïau esgeulustod a chamdriniaeth emosynol.			Ymweliad Amddiffyn Plant statudol i gartref y teulu. Y fam a'r plentyn yn bresennol. Cyrhaeddodd y cariad yn y cartref hefyd tra roedd y gweithiwr cymdeithasol yn ymweld. Roedd ganddi bryderon am gyflwyniad ac ymddygiad y fam; bod y fam yn camddefnyddi o sylweddau a oedd yn effeithio ar ei hunan ofal a bod y plentyn yn cael ei amlygu i'r		Cyfarfod Cynllunio Cyfreithiol wedi'i gynnal. Cytunwyd ar rag-achosion PLO.	Yn ystod ymweliad cartref rhoddodd y plentyn wybod i'r Gweithiwr Cymdeithasol bod y cariad yn brifo'i fam a bod y plentyn yn ei ofni. Tynnwyd y plentyn o'r cartref a'i roi gyda'i fam-gu. Trydedd Gynhadledd Amddiffyn Plant - Adolygiad. Canlyniad y gynhadledd oedd cadw enw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant dan y	Gorchymyn Grant Dros Dro wedi'i roi. Plentyn wedi'i roi mewn gofal maeth. Ar ôl cael ei roi mewn gofal maeth gwnaeth y plentyn ddatgeliadau ynghylch trais domestig ar ran y cariad tuag at fam y plentyn a'r ci. Disgrifiodd y plentyn ei fod wedi gweld y fam a'r cariad yn defnyddio cyffuriau.	Pedwaredd Gynhadledd Amddiffyn Plant - Adolygiad. Tynnwyd enw'r plentyn o'r gofrestr gan fod y plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.			Gwnaeth y plentyn ddatgeliadau pellach o gamdriniaeth h rhywiol i'r gofalwr maeth.	Gorchymyn Gofal wedi'i roi.

Math o weithgaredd	2015												2016	
	Ion	Chw e	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	
				<p>camddefnydd hwn.</p> <p>Ymweliad statudol DP gan y gweithiwr cymdeithasol. Roedd y fam dan ddylanwad sylweddau ac roedd y plentyn yn bresennol yn y cartref yn ei gofal hi. Roedd gan y gweithiwr cymdeithasol bryderon sylweddol am les y fam a'i gallu i ofalu am y plentyn. Nid oedd modd cysylltu ag aelodau eraill y teulu. Gwrthododd y fam i roi caniatâd ar gyfer llety adran 20. Ffoniodd y gweithiwr cymdeithasol yr heddlu am gymorth ond gwrthododd yr</p>			<p>categoriau esgeulustod a chamdriniaeth emosïynol.</p> <p>Dyweddodd y fam-gu wrth y gweithiwr cymdeithasol fod y plentyn wedi datgelu bod cariad y fam yn bygwth y plentyn a'r fam gyda chyllell, a'i fod yn dod i ystafell y plentyn gyda'r nos a'u bod yn ei ofni.</p> <p>Cyfarfod Cynllunio Cyfreithiol wedi'i gynnal. Roedd yr asesiad dichonoldeb o'r teulu estynedig yn negyddol. Nid oedd y fam yn ymgysylltu ag asesiad rhianta na chytundeb ysgrifenedig ac mae dal</p>							

Math o weithgaredd	2015												2016
	Ion	Chw e	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion
				heddlu i ddod i'r cartref. Yna cysylltodd â'r Tîm Dyletswydd Brys i geisio cymorth ac adrodd ei phryderon. Mae'n aneglur o'r cofnodion sut y cafodd mesurau diogelwch eu rhoi ar waith.			mewn perthynas â'r cariad. Trothwy wedi'i ddiwallu i ddechrau achosion gofal.						
Tai						Uned yn derbyn cwyn gan gymdogion y fam yn gysylltiedig â sawl ymwelydd i'r eiddo a'r cyffiniau bob awr o'r dydd. ASBU yn agor ymchwiliad.							